Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

## Pennal View Residential Care Home Ltd

**Cartref Preswyl Pennal View, Blaenpennal, Aberystwyth, SY23 4TR**

**01974251279**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:** | Cynhaliwyd yr ymweliad arolygu ar 25/07/2025 |

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Pennal View Residential Care Home Ltd |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 16 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Cartref gofal preswyl ar gyrion Aberystwyth yw cartref Pennal View. Rhoddwyd gradd 'da' ar gyfer llesiant oherwydd bod y bobl yn cael gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ei alluogi i gyflawni ei ganlyniadau iechyd a llesiant. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â staff cyfarwydd a gofalgar.

Rhoddwyd gradd 'da' ar gyfer gofal a chymorth oherwydd bod y bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o weithwyr gofal angerddol a chyfeillgar. Caiff y gweithwyr gofal eu harwain gan gynlluniau personol cywir wedi'u teilwra at yr unigolyn sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion y bobl.

Rhoddwyd gradd 'da' ar gyfer yr amgylchedd oherwydd bod y bobl yn gyfforddus a chartrefol ym mhob rhan o'r cartref. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth ac mae gan y darparwr gynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol i wella llesiant y bobl.

Rhoddwyd gradd 'da' ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth oherwydd bod y darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da gan dîm o weithwyr gofal medrus ac ymroddedig sy'n cael cymorth da gan eu rheolwyr.

# Canfyddiadau:

## Llesiant

**Da**

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch; cânt eu cefnogi i nodi eu canlyniadau iechyd a llesiant. Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i ddefnyddio eu cryfderau ac i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd cynrychiolydd sy'n ymweld â'r cartref wrthym, *“They (pob aelod o'r staff) take a real interest in her”.*

Mae gan y bobl gymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Cânt gymorth i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae'r bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd ac nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pryd y gall aelodau o'u teulu a'u ffrindiau ymweld. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau sy'n bodoli eisoes â theulu, ffrindiau a'r bobl sy'n bwysig yn eu bywydau ac i barhau â'r cydberthnasau hynny gymaint â phosibl. Caiff hyn ei hwyluso gan aelodau o staff sy'n parchu'r cydberthnasau hyn a'u pwysigrwydd i fywydau'r bobl.

Caiff y bobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac maent yn teimlo'n ddiogel bob amser. Mae'r gwasanaeth yn annog adborth gan y bobl a'u cynrychiolwyr er mwyn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed. Mae systemau cymorth ar waith er mwyn sicrhau y caiff unrhyw risgiau eu nodi'n brydlon ac yr ymdrinnir â nhw.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae cynllun y lleoliad, sut y mae wedi'i addurno ac ansawdd y dodrefn a'r gosodiadau yn diwallu anghenion y bobl.

## Gofal a Chymorth — Da

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol, cyfeillgar a hamddenol drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *“This place is perfect, what more can I ask for, the girls are wonderful”.*

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd da gan fod proses fanwl yn cael ei rhoi ar waith cyn i'r rheolwr gytuno i ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r asesiadau effeithiol yn cadarnhau a all y darparwr ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau personol, ac yn ystyried y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn barod.

Caiff y bobl eu cynnwys; caiff y cynllun ar gyfer eu gofal a'u cymorth ei lunio ar y cyd â nhw, eu cynrychiolwyr, gweithwyr proffesiynol perthnasol, a darparwr y gwasanaeth. Mae'r cynllun personol yn amlinellu sut y dylai'r staff gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant yn unol â'u dewisiadau. Mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn gadarnhaol am ansawdd y gofal a'r cyfathrebu effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y bobl drwy nodi a rheoli risgiau posibl. Caiff hawl y bobl i wneud eu dewisiadau eu hunain ac i gymryd risgiau personol gwybodus ei hyrwyddo gan y gwasanaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynlluniau unigol y bobl.

Mae'r bobl yn cael dewis gyda gweithgareddau dyddiol ac yn mwynhau diddordebau, fel dewis prydau bwyd, cymryd rhan mewn gweithgareddau, ac ymgysylltu â hobïau. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n urddasol a pharchus. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff, eu ffrindiau, eu teuluoedd a'i gilydd. Caiff y bobl eu cefnogi i fynychu apwyntiadau mewn perthynas â hybu iechyd. Mae'r staff yn ymwybodol o'u rôl yn hyn o beth ac o anghenion cyfredol pob unigolyn.

Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a pholisi meddyginiaeth darparwr y gwasanaeth. Caiff archwiliadau rheolaidd o feddyginiaethau eu cwblhau mewn modd amserol er mwyn sicrhau ymarfer cyson ac er mwyn gwneud yn siwr y caiff safonau da eu cynnal.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn cymaint â phosibl rhag y risg o haint oherwydd bod y safle a'r cyfarpar yn cael eu cadw'n lân ac yn hylan. Mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â materion a nodwyd o ran arferion hylendid bwyd yn dilyn ymweliad arolygiad iechyd yr amgylchedd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mewn cyflwr da. Mae'r darparwr wedi uwchraddio ystafell ymolchi, wedi gosod lloriau newydd ac mae ganddo gynlluniau pellach i wella'r décor. Caiff barn ac anghenion y bobl eu hystyried wrth gynnal a chadw'r adeilad. Mae ystafelloedd unigol y bobl wedi'u personoli ac mae'r bobl yn eu haddurno gyda'u dodrefn, eu hornamentau a'u cyfarpar eu hunain.

Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol a phreifat ar gael i'r bobl dreulio amser ar eu pen eu hunain, cymdeithasu neu dderbyn ymwelwyr. Mae'r ardaloedd cymunedol yn diwallu anghenion y bobl, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd preifat, gweithgareddau ac amser hamdden.

Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac mae'r darparwr yn aros i waith gael ei gwblhau er mwyn gwneud y tiroedd yn fwy hwylus i bawb, gan gynnwys y rhai sydd â heriau corfforol.

Mae diogelwch yn ystyriaeth allweddol yn y gwasanaeth. Gall pobl lywio'r cartref yn hawdd a chael gafael ar gyfarpar angenrheidiol. Mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau i'r bobl. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r strategaethau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson.

Mae trefniadau rheolaidd ar gyfer gwasanaethu, cynnal a chadw ac atgyweirio'r cyfarpar ar unwaith yn sicrhau diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae trefniadau diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl, heb amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd na'u hurddas. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn eiddo personol a darparu mynediad priodol i'r safle ac o'r safle.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae'r darparwr yn goruchwylio ansawdd y gofal drwy brosesau archwilio manwl ac effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir o archwiliadau mewnol ac allanol yn llywio'r adroddiadau adolygu ansawdd a'r cynlluniau gwella

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth bob dydd ac yn adnabod pawb sy'n ymwneud ag ef. Mae'n annog adborth gan y bobl a'r staff er mwyn helpu i asesu ansawdd y gwasanaeth ac i wneud unrhyw welliannau. Mae'r bobl yn gwybod sut y gallant roi adborth am eu profiadau o'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr uwch-weithwyr gofal. Maent wedi creu diwylliant cyfeillgar sy'n galluogi'r bobl i fyw mor iach ac mor annibynnol â phosibl. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"It's lush coming to work and seeing the reaction of the residents"* ac *"It's really rewarding making a difference".* Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl a gwelsom lawer o ryngweithio agored a chyfeillgar yn ystod yr arolygiad. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y cyfathrebu yn y gwasanaeth, dywedodd un ohonynt, *"They are always at the end of the phone or email. They communicate well with us and are accessible".*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr o leiaf bob chwarter er mwyn rhoi adborth a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Mae'r rheolwr yn chwilio am opsiynau newydd i gynnal cyfarfodydd staff er mwyn diwallu anghenion y tîm llai o weithwyr gofal yn well.

Mae gan y gwasanaeth brosesau dethol a fetio effeithiol wrth gyflogi staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwysedig ac yn ddibynadwy. Mae'r gweithwyr gofal yn destun gwiriadau cyffredinol a rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i weithio yn y gwasanaeth a'u bod wedi'u cofrestru'n briodol â chyrff proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu cyfnod sefydlu effeithiol sy'n paratoi aelodau newydd o staff ar gyfer y rôl. Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol am y cyfleoedd datblygu y maent yn eu cael.

Mae trafodaethau â'r gweithwyr gofal yn dangos dull cadarnhaol o amddiffyn y bobl a'u cadw'n ddiogel. Mae'r staff yn cyfathrebu'n dda â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol ac yn hyderus i roi gwybod am bryderon os bydd angen.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*